**Cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi**

**Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd am 10.30 a.m. ddydd Llun 28 Ionawr 2013 yn Ystafell Gynadledda 1 a 2, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd**

**Gweinidogion yn Bresennol**
Y Prif Weinidog
Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Gweinidog Cyllid
Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (ar gyfer Eitem 4)

**Rhanddeiliaid yn Bresennol**
Alex Bevan, TUC Cymru
Ben Cottam, Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA)
Iestyn Davies, FSB
Heather Eason, Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (WSPU)
Ian Gallagher, Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Ifan Glyn, FMB (Sylwedydd)
Richard Houdmont, Sefydliad Siartredig Marchnata (CIM)
Peter Hughes, Cyngor Benthycwyr Morgeisi (CML)
Leighton Jenkins, CBI
Richard Jenkins, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr (FMB)
Mark Judd, Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (WSPU)
Nigel Keane, WSPU
David Lermon, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)
Robert Lloyd Griffiths, Sefydliad y Cyfarwyddwr (IoD)
Martin Mansfield, TUC Cymru
David Morgan, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
Graham Morgan, Siambr Cymru
Lowri Morgan, Cymdeithas y Cyfreithwyr
John Phillips, TUC Cymru
Huw Roberts, Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IoD)
Amarjite Singh, Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru
Derek Walker, Canolfan Cydweithredol Cymru
Emma Watkins, CBI

**Swyddogion Llywodraeth Cymru yn Bresennol**
Yr Ysgrifennydd Parhaol
James Price
Tracey Burke
Jeff Collins
Alistair Davey
Frances Duffy (Eitem 4)
John McClelland (Eitem 3)
Jonathan Price
Alison Standfast (Eitem 3)

**Ymddiheuriadau:** Paul Byard, Cadeirydd Busnes Cymru; Alex Jackman, Fforwm Busnes Preifat; Nick Payne, Cymdeithas Cludo Nwyddau; Richard Price,

Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi; Phil Orford, Fforwm Busnes Preifat; Huw Thomas, NFU; Brendan Kelly, TUC Cymru

**1. Cyflwyniad a Sylwadau Agoriadol**

1.1 Croesawodd y Prif Weinidog y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod a chyflwynodd yr eitemau ar yr agenda.

1.2 Dywedodd y Prif Weinidog fod tair prif eitem ar yr agenda:

- Eitem 3 ar yr Agenda: Caffael gyda'r Gweinidog Cyllid
- Eitem 4 ar yr Agenda: Trafnidiaeth a Chysylltedd gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
- Eitem 5 ar yr Agenda: Adroddiad drafft ar yr Adolygiad o'r Camau i Weithredu Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru a'i Effaith

1.3 Dywedodd y Prif Weinidog y câi Eitem 4 ei symud i ddiwedd yr Agenda am y byddai'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn hwyr yn cyrraedd y cyfarfod.

1.4 Esboniodd y Prif Weinidog fod hefyd bapur ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r amserlen ar gyfer y Bil Cynllunio y dylid ei nodi.

1.5 Cyflwynodd y Prif Weinidog y Gweinidog Busnes, Arloesedd, Technoleg a Gwyddoniaeth, y Gweinidog Cyllid a Derek Jones a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf o'r Cyngor fel yr Ysgrifennydd Parhaol.

1.6 Rhoddodd y Prif Weinidog y wybodaeth ddiweddaraf am yr economi yn gryno a hysbysodd y Cyngor o'r datblygiadau diweddaraf o ran Maes Awyr Caerdydd ac, yn arbennig, y cyhoeddiad diweddar bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu symud ymlaen i brynu Maes Awyr Caerdydd.

1.7 Pwysleisiodd y Prif Weinidog fod y Maes Awyr yn ased strategol pwysig, sy'n hanfodol i ddatblygu'r economi. Roedd y gymuned fusnes yng Nghymru a thu hwnt wedi pwysleisio'n gyson bwysigrwydd porth rhyngwladol cystadleuol. I'r perwyl hwn, bu Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o ddatblygu'r Maes Awyr er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa i ymateb i'r heriau sy'n ei wynebu ac mae prynu'r Maes Awyr yn un o'r opsiynau.

1.8 Eglurodd y Prif Weinidog y byddai unrhyw benderfyniad terfynol i brynu'r Maes Awyr yn dibynnu ar ganlyniad ymarfer ariannol a diwydrwydd dyladwy cyfreithiol cynhwysfawr sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Nododd y Prif Weinidog yn glir na fyddai Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r maes awyr yn uniongyrchol. Y bwriad yw y câi ei weithredu ar ran Llywodraeth Cymru gan weithredwr arbenigol â chymwysterau addas ar sail fasnachol.

1.9 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd gan unrhyw un unrhyw sylwadau neu gwestiynau – ni chafwyd yr un sylw na chwestiwn a symudodd y cyfarfod ymlaen at yr eitem nesaf.

**2. Nodiadau a Chamau Gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2012**

2.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog yr eitem hon ar yr agenda a gofynnodd i'r Aelodau a oedd unrhyw faterion yn ymwneud â chywirdeb y nodiadau. Ni chodwyd unrhyw bwyntiau o ran cywirdeb a derbyniwyd nodiadau'r cyfarfod blaenorol.

2.2 Hysbysodd y Cyngor fod dau bwynt gweithredu wedi codi yn y cyfarfod diwethaf, sef:-

1) y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i ddosbarthu nodyn i'r Aelodau ar ffigurau allforio Cymru

2) bod angen cynnull cyfarfod arbennig o Gyngor Adnewyddu'r Economi i roi sylw i'r Grŵp Cynghori Annibynnol ar Gynllunio, Dinas-ranbarthau ac Adroddiad McClelland ar Gaffael.

2.3 Roedd y ddau bwynt gweithredu hyn wedi'u cyflawni. Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

**3. Caffael**

3.1 Gwahoddodd y Prif Weinidog y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ i gyflwyno'r papur a chroesawodd John McClelland i'r cyfarfod.

3.2 Atgoffodd y Gweinidog Cyllid y Cyngor fod mater caffael wedi'i drafod ddiwethaf ym mis Chwefror 2012. Roedd cryn dipyn o weithgarwch wedi bod ers hynny gan gynnwys adolygiad John McClelland o effaith polisïau caffael. Gwahoddodd y Gweinidog Cyllid John McClelland i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygid i'r Cyngor.

3.3 Amlinellodd John McClelland bwysigrwydd sicrhau bod prosesau caffael cyhoeddus yng Nghymru yn cael yr effaith fwyaf posibl. Roedd yn gobeithio y byddai'r adolygiad yn annog y gymuned gaffael i feddwl am ei chyfraniad yng Nghymru yn nhermau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

3.4 Nododd John McClelland fod cryn gynnydd wedi'i wneud a bod gwell model bellach ar gyfer cynnal prosesau caffael yn y sector cyhoeddus. Hysbysodd y Cyngor fod gwaith ymchwil arbennig wedi'i wneud ym maes caffael a bod cyngor technegol rhagorol wedi'i lunio ar gyfer y maes hwnnw. Bellach, roedd gan y sector cyhoeddus yng Nghymru ddealltwriaeth dda o'r materion a'r heriau ac roedd rhai rhaglenni uchelgeisiol yn helpu cyflenwyr i lenwi'r bwlch yn y farchnad. Nododd fod gwelliannau wedi bod ar lefel uchel gyda 50% o wariant y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei gynnal gyda chwmnïau a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru. Roedd gwariant cydweithredol yn cyfateb i 20% o gyfanswm y gwariant yng Nghymru. O ran sgiliau caffael roedd yn amlwg bod angen datblygu carfan fwy o faint o arbenigwyr caffael yng Nghymru.

3.5 Nododd, er bod rhai enghreifftiau da, fod hefyd le i wella drwy fuddsoddi ymhellach ym maes caffael. Roedd yr Adolygiad wedi gwneud nifer o argymhellion sydd bellach yn cael eu datblygu ac roedd cyfle i adeiladu ar hyn nawr. Yn yr un modd, drwy fwy o weithgarwch caffael cydweithredol, gellid gwneud arbedion sylweddol.

3.6 Diolchodd y Gweinidog Cyllid i John McClelland a nododd fod yr adolygiad hwn wedi bod yn un gwerthfawr. Roedd hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yr oedd y Gweinidog wedi'i mynegi'n glir yn Natganiad Polisi Caffael Cymru. Ailbwysleisiodd y Gweinidog fod mabwysiadu Polisi Caffael Cymru yn rhywbeth dewisol a bod y posibilrwydd o ddeddfu er mwyn sicrhau cynnydd yn cael ei ystyried.

3.7 Hysbysodd y Gweinidog y Cyngor fod yr ymagwedd budd i'r gymuned yn rhan annatod o bolisi Caffael Cymru a diolchodd i Martin Mansfield am gadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn gyfrifol am atgyfnerthu'r polisi a chymorth i helpu i'w gyflawni ar lawr gwlad.

3.8 Nododd y Gweinidog fod adnoddau a gallu yn hollbwysig a chyfeiriodd at y prosiect Defnyddio Doniau Cymru a oedd yn helpu hyfforddeion ifanc i ennill cymwysterau proffesiynol, roedd rhai ohonynt eisoes yn cael gwaith yn y sector cyhoeddus.

3.9 Nododd y Gweinidog fod mater cymhwyso rheolau caffael Ewropeaidd yn un pwysig ac y câi polisi caffael Cymru ei ddiweddaru er mwyn ystyried y newidiadau a gâi eu cyflawni drwy'r ymarfer i foderneiddio Cyfarwyddebau Caffael yr UE. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at gynigion presennol i gefnogi'r polisi caffael cydweithredol yng Nghymru drwy sefydlu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Diolchodd y Gweinidog i'r rhai a oedd wedi cymryd rhan yn yr adolygiad a chydnabu fod cynnydd da wedi'i wneud tra'n nodi bod mwy i'w wneud.

3.10 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Gweinidog Cyllid a gwahoddodd Aelodau'r Cyngor i wneud sylwadau.

3.11 Nododd Martin Mansfield fod gwall teipograffyddol ym mharagraff 15 o'r adroddiad am ei fod yn cyfeirio ato fel Ysgrifennydd Cyffredinol y TUC. Dylai hyn ddarllen TUC Cymru.

3.12 Cyfeiriodd wedyn at drafodaethau a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol ag Ysgrifennydd Cyffredinol y TUC, Frances O'Grady, ynghylch ymagwedd y gweinyddiaethau datganoledig a lle roedd caffael wedi'i drafod yn fanwl a chynnydd da wedi'i nodi yng Nghymru a'r Alban. Dywedodd y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fudd i'r Gymuned yn cyfarfod yn ddiweddarach y prynhawn hwnnw ac y gellid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gyfarfod nesaf y Cyngor.

**CAM GWEITHREDU:** Martin Mansfield i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fudd i'r Gymuned yng nghyfarfod nesaf Cyngor Adnewyddu'r Economi.

3.13 Nododd Martin Mansfield fod ymagwedd gadarnhaol a chyfeiriad teithio Llywodraeth Cymru yn bwysig ac yn un y gallai'r sector preifat ei fabwysiadu hefyd, yn enwedig o ran ystyried yr effaith y mae'r ffordd y maent yn cael gafael ar eu nwyddau yn ei chael.

3.14 Cydnabu Richard Jenkins y camau cadarnhaol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriodd at bryderon ynghylch argaeledd electronig SQuID a'i gallu i gael effaith a nododd fod SQuID eisoes yn weithredol yn yr Alban. O ran budd i'r gymuned nododd fod angen tir cyffredin a bod contractwyr am gael sicrwydd bod gweithwyr proffesiynol ym maes caffael yn deall y manteision cymunedol roeddent yn gofyn amdanynt.

3.15 Cyfeiriodd John Phillips at Erthygl 17 o'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd newydd sy'n ymwneud â phobl dan anfantais a gofynnodd i Lywodraeth Cymru roi ei barn ar fater cadw contractau ar gyfer gweithwyr anabl a gweithwyr eraill sydd dan anfantais pan fyddai'r Erthygl hon yn dod i rym. Roedd hyn yn fater arbennig o bwysig o gofio'r problemau sy'n ymwneud â Remploy, sy'n dal heb eu datrys.

3.16 Nododd Iestyn Davies fod rhywfaint o gonsensws, a oedd i'w groesawu. O ran mater y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol mae angen sicrhau cydweithio a chydweithredu da yn y dyfodol, yn enwedig wrth fynd i'r afael â materion allweddol megis bylchau o ran cyflenwyr a manteisio ar 'welliannau cyflym'.

3.17 Cyfeiriodd Ben Cottam at y Bil Datblygu Cynaliadwy a oedd yn destun ymgynghoriad ar y pryd a gofynnodd am eglurhad ynghylch sut y byddai Llywodraeth Cymru am ymdrin ag egwyddorion Datblygu Cynaliadwy yn ei hymagwedd at gaffael.

3.18 Ymatebodd y Gweinidog Cyllid i'r pwyntiau a wnaed a nododd y byddai cyfle i ystyried cyfleoedd pellach yn ymwneud â budd i'r gymuned. Hysbysodd y Cyngor hefyd y gallai'r gwaith o ddatblygu SQuID electronig fynd rhagddo am fod y contract gwerthwchigymru wedi'i ddyfarnu.

3.16 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Gweinidog Cyllid a John McClelland

## 4. Adroddiad drafft ar yr Adolygiad o'r Camau i Weithredu Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru a'i Effaith

4.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog yr eitem hon. Esboniodd fod dwy flynedd wedi mynd heibio ers yr adolygiad diwethaf a bod y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad wedi'i gytuno yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Medi 2012. Hysbysodd y Cyngor fod yr adolygiad wedi'i gynnal ar y cyd gan Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n cynrychioli'r gwahanol bortffolios a bod yn gyfle i Weinidogion ystyried yr adolygiad a thrafod yr argymhellion gydag aelodau'r Cyngor. Gofynnodd i'r Aelodau roi eu barn gan gymryd pob argymhelliad yn ei dro.

4.1.2 Argymhelliad 1: Gofynnodd Richard Jenkins am i'r cyfeiriad at *'new'* yn yr ail frawddeg gael ei ddiwygio i ddarllen *'all'*. Felly, cytunwyd y dylai'r frawddeg ddarllen 'Consideration of the means by which *all* structures established by Welsh Government are considered within the consultation architecture should be included in any update'.

4.1.3 Hysbysodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Sgiliau y Cyngor y câi adolygiad o'r Paneli Sector ei gwblhau yn fuan ac y gellid disgwyl cyhoeddiad ym mis Mawrth 2013.

4.1.4 Argymhelliad 2: Gofynnodd y Prif Weinidog i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth am ei sylwadau. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn fodlon ar yr argymhelliad hwn. Nododd Iestyn Davies hefyd y dylai'r cyfrifoldeb gael ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Partneriaid Cymdeithasol.

4.1.5 Argymhelliad 3: Dywedodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y gellid gwella'r argymhelliad hwn a chynigiodd y gallai swyddogion arweiniol ymgysylltu â busnesau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r ffordd y maent yn gweithredu. Nododd Emma Watkins y byddai'r CBI yn cefnogi'r cynnig hwn.

4.1.6 Argymhelliad 4: Derbyniwyd hyn heb unrhyw sylwadau pellach.

4.1.7 Argymhelliad 5: Cyfeiriodd David Lermon at y ffaith bod contract WSPU am gyfnod cyfyngedig ac y disgwylid iddo gael ei adnewyddu ymhen 12 mis. Awgrymodd, er eglurder, y dylid cyfeirio hefyd at unrhyw olynydd posibl.

4.1.8 Argymhelliad 6: Fe'i derbyniwyd heb unrhyw sylwadau.

4.1.9 Argymhelliad 7: Dywedodd y Gweinidog Busnes, Arloesedd, Technoleg a Gwyddoniaeth fod yr argymhelliad hwn yn un defnyddiol. Byddai'n ddefnyddiol i'r Gweithgor edrych ar faterion penodol. Cytunodd Martin Mansfield â'r dull gweithredu hwn, gan ychwanegu yr hoffai weld y Cynllun Busnes yn cynnwys rhywfaint o ysbryd yr Uwchgynadleddau economaidd o ran ystyried materion strategol, ehangach. Dywedodd nad oedd modd ymdrin yn fanwl â holl fusnes Llywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd y Cyngor. Ychwanegodd fod rôl y Cyngor yn cynnwys nid yn unig nodi papurau ond hefyd edrych ar bethau yn strategol a gweithredu.

4.1.10 Argymhelliad 8: Roedd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Sgiliau yn cefnogi'r argymhelliad hwn a chyfeiriodd at SQuID fel enghraifft dda. Roedd hyn yn gyfle i edrych yn fwy effeithiol ar yr effaith ar fusnesau er mwyn dileu unrhyw fiwrocratiaeth ddiangen. Ychwanegodd Iestyn Davies fod biwrocratiaeth yn broblem ac, er y gall fod yn reddf naturiol i ddeddfu, nad oes angen gwneud hynny bob amser. Nododd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth fod yr adolygiad yn ffordd ddefnyddiol o ddatblygu gwaith y Cyngor o ran ystyried effeithiau economaidd nid yn unig o fewn portffolio BETS ond yn gyffredinol.

4.2 Diolchodd y Prif Weinidog i bawb am eu sylwadau a gwahoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol i ddweud ychydig eiriau.

4.3 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr adolygiad a chydnabu'r negeseuon a'r adborth a oedd yn sail i'w argymhellion. Esboniodd mai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru oedd sicrhau twf a swyddi a, thrwy wneud hynny, fynd i'r afael â thlodi. Roedd yn hanfodol bod gweision sifil yn ystyried beth y gallant ei wneud i helpu busnesau i gyflawni'r blaenoriaethau hynny. Ailbwysleisiodd fod y cymorth ar gael i sicrhau y câi'r argymhellion eu gweithredu'n drylwyr

4.4 Ychwanegodd Emma Watkins ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddangos arweiniad. Ceir lefel dda o ymgysylltu â rhannau o Lywodraeth Cymru – ond mae angen sicrhau bod hyn yn fwy cyson ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

4.5 Canmolodd Iestyn Davies waith WSPU. Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol am gael cyfarfod â WSPU er mwyn trafod eu rôl.

**CAM GWEITHREDU: Swyddogion i drefnu cyfarfod â'r Ysgrifennydd Parhaol a WSPU.**

4.4. Gofynnodd Richard Jenkins a ellid darparu matrics o bob prosiect seilwaith mawr. Byddai hyn hefyd yn cyd-fynd â'r agenda caffael am y byddai'n helpu i feithrin dealltwriaeth o brosiectau mawr sydd yn yr arfaeth.

4.5. Dywedodd y Prif Weinidog fod matrics o brosiectau mawr, o ran y rhai a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i'w gael ac y gellir ei ddarparu. Ychwanegodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y byddai'n ddefnyddiol, yn y cyd-destun hwn, gael rhestr gyfan o'r holl brosiectau mawr (gan gynnwys prosiectau Llywodraeth Cymru). Dywedodd y Gweinidog y byddai ei swyddogion yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Leol i weld a oedd rhestr gyflawn ar gael.

4.6. Cytunodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau y gellid gwneud mwy o waith ar y mater hwn ac y bydd ei swyddogion yn gweithio gyda swyddogion BETS i ddatblygu hyn.

**CAMAU I'W CYMRYD:** Swyddogion yn yr Adran Llach a'r Adran Gyllid i ystyried a ellid llunio rhestr gyflawn o brosiectau seilwaith mawr sydd yn yr arfaeth a'i darparu.

4.7 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Ysgrifennydd Parhaol ac, am na chafwyd unrhyw sylwadau pellach, cyflwynodd yr eitem nesaf.

## 5. Trafnidiaeth a Chysylltedd

5.1 Ymunodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau â'r cyfarfod a gofynnodd y Prif Weinidog iddo gyflwyno'r eitem hon.

5.2 Cyfeiriodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau y Cyngor at y papur a roddodd drosolwg o'r datblygiadau ac a nododd faterion allweddol a fyddai'n codi'n fuan. Dywedodd fod y rhaglen drydaneiddio wedi bod yn llwyddiant mawr a chyfeiriodd hefyd at brosiect deuoli Blaenau'r Cymoedd a oedd yn mynd rhagddo'n dda. Pwysleisiodd rôl trafnidiaeth o ran cefnogi'r economi a dywedodd ei fod yn gweithio'n agos gyda Gweinidog BETS ar faterion trawsbynciol.

5.3 Pwysleisiodd y Prif Weinidog fod cysylltedd yn golygu seilwaith digidol yn ogystal â seilwaith ffisegol ac, felly, fod yn rhaid ystyried mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf hefyd. Nododd fod angen sicrhau bod band eang ar gael i gymaint o fusnesau â phosibl a chyfeiriodd at y cynllun i gyflwyno band eang yng Nghymru a'r gwaith i wella cyflymderau. Wedyn agorodd yr eitem i'w thrafod.

5.4 Gofynnodd Alex Bevan a fyddai'n bosibl cael eglurhad o ran cyhoeddiad diweddar y Prif Weinidog ynghylch buddsoddi £11.5 miliwn mewn cynlluniau trafnidiaeth yn ardal Blaenau'r Cymoedd. Holodd hefyd ynghylch yr amserlenni ar gyfer datblygu Porthladd Port Talbot.

5.5 Cyfeiriodd Iestyn Davies at baragraff 18 o'r papur materion ac esboniodd fod y gymuned fusnes yn awyddus i weld cynnydd o ran Metro de-ddwyrain Cymru. Dywedodd y gallai'r Metro ddod â manteision sylweddol i'r gymuned fusnes a thwristiaeth, yn enwedig o ran helpu i leihau amseroedd teithio. Awgrymodd fod y partneriaid cymdeithasol yn awyddus i weld cynnydd yn cael ei wneud ond fod llawer o'r adroddiadau yn y cyfryngau yn canolbwyntio ar oedi o ran cwblhau'r prosiect. Gofynnodd sut y gellid cynnwys y gymuned fusnes er mwyn cynnal y momentwm a helpu i gefnogi cynnydd.

5.6 Cyfeiriodd Richard Jenkins a Robert Lloyd Griffiths at welliannau i'r M4 o amgylch Casnewydd. Yn eu barn hwy, dylid rhoi blaenoriaeth i wella'r M4 ar unwaith ac nid yn yr hirdymor fel y nodir yn y papur (paragraff 40).

5.7 Cyfeiriodd Huw Roberts at y gwasanaeth rheilffordd rhwng De Cymru a Llundain. Dywedodd fod amseroedd teithio rhwng Cymru a Llundain yn hanfodol a'u bod yn fesur allweddol o gystadleurwydd. Roedd y gwasanaeth blaenllaw yn y 1980au yn seiliedig ar sicrhau amser teithio o 101 o funudau. Yr amser teithio ar hyn o bryd yw 123 o funudau. Byddai trydaneiddio'r rheilffyrdd ond yn torri 12 munud oddi ar y daith.

5.8 Ychwanegodd Huw Roberts nad yw Llywodraeth y DU yn rhoi sylw priodol i'r effaith y mae ei gweithredoedd yn Lloegr yn ei chael ar bob rhan o'r Undeb. Fel enghraifft, nododd fod gwelliannau i seilwaith yn ne-ddwyrain Lloegr wedi cael effaith ar gystadleurwydd Cymru yn yr hirdymor. Gofynnodd beth gallai'r gymuned fusnes ei wneud i helpu i fynd i'r afael â hyn.

5.9. Nododd y Gweinidog Cyllid fod manylion llawn yr £11.5 miliwn o gyllid ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth wedi'u rhoi yn ei datganiad diweddar y cytunwyd y dylid ei ddosbarthu i'r Cyngor Hefyd, cynigiodd y Gweinidog Llywodraeth

Leol a Chymunedau anfon y wybodaeth ddiweddaraf am gynllun deuoli'r A465 ym Mlaenau'r Cymoedd at y Cyngor.

**CAM GWEITHREDU: Swyddogion i ddosbarthu copi o'r datganiad ar y £11.5m ychwanegol o gyfalaf a ddyrannwyd i'r Cyngor.**
**Swyddogion i roi nodyn diweddaru ar gynllun yr A465 i aelodau'r Cyngor**

5.9 Ychwanegodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau fod sawl mater ynghylch datblygu Harbwr Port Talbot. Roedd rhai o'r rhain yn ymwneud ag agenda'r Rhwydweithiau Traws-Ewropeaidd (TEN) ac roedd swyddogion yn edrych yn ofalus ar hynny.

5.10 Ychwanegodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau fod nifer o storïau newydd da a bod arian yn cael ei fuddsoddi yng Nghymru o ran amrywiaeth o gyfleoedd. Nododd y Gweinidog fod nifer o bwyntiau wedi'u codi ynghylch ymwneud y gymuned fusnes. Yn y cyd-destun hwn cyfeiriodd y Gweinidog at y cyhoeddiad diweddar ynghylch Tasglu Trafnidiaeth De Cymru a dywedodd y Gweinidog y byddai'n croesawu trafodaeth pe bai'r Cyngor o'r farn bod materion penodol y dylai'r Tasglu fynd i'r afael â hwy.

**Camau Gweithredu: Y wybodaeth ddiweddaraf am TENS i fod yn eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor.**

5.11 Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd bwysigrwydd yr M4. Y flaenoriaeth fyrdymor yw buddsoddi yng nghydnerthedd yr M4 er mwyn sicrhau bod yr M4 yn gweithio orau y gall. Cyfeiriodd hefyd at brosiect Mesurau Gwella Coridor yr M4 (M4 CEM) a oedd yn destun ymgygnhoriad ar y pryd. O ran mater y gwasanaeth rheilffordd rhwng De Cymru a Llundain hysbysodd yr aelodau ei fod wedi cyfarfod yn ddiweddar â Gweinidog Trafnidiaeth y DU. Nododd y gallai fod cyfleoedd yn gysylltiedig â Chomisiwn Silk o ran sut mae masnachfreintiau yn gweithredu a chyfeiriodd at gyfleoedd posibl drwy ddefnyddio pwerau benthyca yn y dyfodol.

5.12 Ychwanegodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Sgiliau fod angen ystyried mater Harbwr Port Talbot mewn perthynas â Tata. Roedd mater datblygu porthladdoedd yn gyffredinol hefyd yn berthnasol i'r cynllun i wella Ardal Fenter Dyfrfford y Ddau Gleddau. Pwysleisiodd y Gweinidog ei bod yn bwysig ystyried canlyniadau anfwriadol camau a gymerir yn Llundain a'u heffeithiau yng Nghymru ac awgrymodd y gallai'r Cyngor ystyried hyn fel rhan o'i agenda.

5.13 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at drafodaethau ynghylch mater datganoli cyfrifoldebau dros reilffyrdd ond rhybuddiodd fod profiad wedi dangos, pan ddatganolir pwerau, nad yw'r gyllideb bob amser yn dilyn. Felly, wrth ddatganoli cyfrifoldebau dros reilffyrdd, byddai'n rhaid hefyd drosglwyddo

cyllideb yn briodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg ariannol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.

5.14 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at Bont Hafren a nododd fod disgwyl i'r contract presennol ddod i ben yn 2018. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae'r Adran Drafnidiaeth yn pennu'r tollau ac yn cael y refeniw a godir. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai hi a ddylai reoli'r tollau.

5.15 Roedd Iestyn Davies yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan y Prif Weinidog ac ychwanegodd, er na ddylid ystyried bod tollau yn ffordd o ddatrys capasiti gormodol nac yn fodd i greu incwm, y byddai sefydliadau busnesau yn fodlon ystyried cynigion yr ystyrid eu bod yn deg a lle y caiff yr elw ei fuddsoddi mewn gwelliannau ehangach.

5.16 Cyfeiriodd David at y cynllun i drydaneiddio'r brif linell rhwng Llundain ac Abertawe a phwysigrwydd sicrhau cysylltedd ag Abertawe mewn modd amserol. Roedd yn awyddus i weld y gwaith o drydaneiddio'r brif linell yn dechrau yn Abertawe a Llundain ar yr un pryd er mwyn i hyn fod yn deg.

5.17 Dywedodd y Prif Weinidog fod hwn yn bwynt pwysig ac yn rhywbeth y bydd swyddogion yn edrych arno ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor arno.

**CAMAU I'W CYMRYD:** Swyddogion i edrych ar y trefniadau penodol ar gyfer trydaneiddio'r brif linell reilffordd – ac adrodd yn ôl i Gyngor Adnewyddu'r Economi.

5.18 Awgrymodd Ben Cottam, pan fo teimladau cryf bod angen gweithredu ac os oedd y Cyngor yn gytûn o amgylch y bwrdd, y gallai'r Cyngor benderfynu cefnogi gweithredoedd Llywodraeth Cymru. Byddai'r fath ddull gweithredu yn cryfhau trafodaethau.

5.19 Cytunodd y Prif Weinidog i ailgyflwyno'r eitem hon yn ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn ceisio cytundeb ynghylch y ffordd ymlaen.

**5.20** Gofynnodd Richard Houdmont a all Cymru ddefnyddio Cynllun Gwarantu'r DU er mwyn targedu'r manteision yr hoffai eu gweld yn deillio ohono. Ymatebodd y Prif Weinidog drwy ddweud bod y mater hwn yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

**Camau i'w cymryd: Papur ar safbwynt Llywodraeth Cymru o ran tollau Pont Hafren i'w ystyried gan y Cyngor.**

## 6. Unrhyw Fater Arall

6.1 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw fusnes arall.

6.2 Gofynnodd Graham Morgan am y lluoedd arfog ac a oedd unrhyw asesiad o'r effaith wedi'i gynnal o ran y cyfleoedd i sgiliau ddychwelyd i Gymru. Nododd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau mai ef oedd Cadeirydd Grŵp y Lluoedd Arfog a chynigiodd baratoi papur ar yr eitem hon yn y cyfarfod nesaf.

6.3 Ychwanegodd y Prif Weinidog fod y prif weithgarwch ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymwneud â Sain Tathan a sut y gellid ei ddefnyddio fel sbardun economaidd.

**Cam Gweithredu: Papur ar rôl y lluoedd arfog fel sbardun economaidd yng Nghymru.**

6.4 Cododd Iestyn Davies fater dyfodol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol fel sail ar gyfer datblygu sgiliau ledled y DU am ei fod wedi'i godi'n flaenorol ym Mwrdd Cyflogwyr a Sgiliau Cymru. Gofynnodd a fyddai modd cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad polisi sgiliau ac addysg am ei fod yn effeithio ar dwf economaidd ac a hoffai aelodau Cyngor Adnewyddu'r Economi weld mater y newidiadau arfaethedig gan yr Adran Busnes a Diwydiant i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn cael ei ystyried. Croesawodd Huw Roberts gamau i wella llythrennedd a rhifedd a byddai'n croesawu cynnig i ystyried yr eitem hon yn y dyfodol ac awgrymodd y dylai ystyried sgiliau craidd yn ogystal â sgiliau ar gyfer y gweithle. Roedd o'r farn bod rôl glir i'w chwarae gan y partneriaid cymdeithasol o ran helpu i ddatblygu'r mater hwn.

**Cam Gweithredu:** Papur ar sgiliau i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf a fydd yn cynnwys materion cyfredol sy'n cael eu hystyried gan WESB megis addysg ôl-14, prentisiaethau, TGAU a'r cynnig i ddileu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

6.5 Gofynnodd Peter Hughes beth y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu busnesau i gael gafael ar gyllid gan y banciau. Cyfeiriodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth at waith yr Athro Dylan Jones a chytunwyd i ddarparu papur diweddaru ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Cam Gweithredu: Papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am waith adolygiad Dylan Jones Evans o'r cyllid sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru**

6.6 Ni chodwyd unrhyw eitemau eraill. Diolchodd y Prif Weinidog i bawb am ddod ac am gyfrannu ac atgoffodd yr aelodau y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 3 Mehefin 2013 ym Mharc Cathays. Yna daeth y Prif Weinidog â'r cyfarfod i ben.